# GWYN THOMAS yn cofio'r Hen NIC yn yr ysgol

SION Blewyn Coch, Wil Cwac Cwac: y mae'r ddau enw hyn yn dwyn i gof y canol oed yr hen Lyfrau Mawr y Plant a'u cyfaredd. Y maent yr un mor fyw i blant yr oes hon fel cymeriadau cartŵn rhaglenni S4C. Ond mor rhyfeddol â'r rhain bob blewyn (a phob pluen) yn fy meddwl i ydi cymeriad arall y deuthum i wybod amdano yn fy mhlentyndod pell, Nicolas y Garreg Ddu – Nic i'w gydnabod.

Ychydig o'm cyfoedion sydd erioed wedi clywed am Nic. Y mae hynny'n drueni mawr obelgid y mae'r ddau lyfr lle ceir ei hanesion yn glasuron llenyddiaeth plant. Y mae'n bechod eu bod wedi eu gadael i lithro i ebargofiant.

Teitlau'r ddau lyfr yr wyf yn cyfeirio atynt ydi *Nic* a *Nic Oedd, Nic Fydd*. Awdur y ddau lyfr ydi Gwilym Edward Thomas. Gwasg Aberystwyth a gyhoeddodd y ddau lyfr, y naill yn 1937 a'r llall yn 1947. Yn *Nic* dywedir sut un oedd yr hen gyfaill hwnnw:

*Creadur bach, di-olwg, hyll oedd Nic druan, yn berchen cnwd trwchus o wallt du aflêr, a hwnnw'n sefyll ar ei ben fel pinnau draenog o flaen ci. Weithiau, wedi iddo fod allan yn y glaw, hongiai'r gwallt yn gudynnau duon dros ei dalcen llydan, gan guddio bron ei ddau lygad byw drygionus. Efô yn ddiau oedd y bachgen bach hyllaf a aned erioed.*

Nid yw'n syndod, efallai, mai rhyw lun o wrth-arwr ydi Nic i fod, a chreu helynt a chodi twrw yw ei ddoniau arbennig. Y mae'r ddau lyfr yn llawn o'i helyntion difyr.

* * *

OS YCHYDIG a ŵyr am Nic, ychydig hefyd a ŵyr am ei grëwr, Gwilym Edward Thomas. Pan ysgrifennais ryw bwt amdano yn y *Radio Times* rai blynyddoedd yn ôl (1979) fe dderbyniais ddau lythyr yn ei gylch, un gan Mrs Lillian Roberts o'r Rhyl a fu'n ddisgybl iddo, a'r llall gan Mrs Heti Mair Davies o'r Porth, Y Rhondda, a fu'n gyd-athro ag ef yn y chwedegau.

Cefais sgwrs, hefyd â'r Athro J Gwynn Williams o Fangor, un arall a fu'n ddisgybl iddo. Mae fy sylwadau am G.E. Thomas wedi eu seilio ar yr wybodaeth a gefais gan y caredigion hyn.

Ganed G.E. Thomas tua 1899 yng Nghaerfyrddin. Bu'n ddisgybl yn Ysgol Ramadeg y Frenhines Elizabeth yn y dref honno, yna aeth i Goleg y Brifysgol yn Aberystwyth. Graddiodd yno yn 1920. Bu'n athro yn Breewood, Swydd Stafford, am ryw hyd cyn symud i'r hen Sir Fflint – er, yn Breewood yr arhosodd ei gyfrif banc, am mai yno y'i hagorwyd!

Bu'n athro Cymraeg yn Ysgol Sir Treffynnon am flynyddoedd, nes iddo ymddeol. Enw ei wraig oedd Elsie: bu hi'n wael am gyfnod go faith ac G.E. Thomas fyddai'n gwneud y siopa a llawer o swyddi eraill o gwmpas y tŷ. Bu ef farw tua 1975 neu 1976. Nid oedd gan y ddau blant.

Acen Sir Gâr oedd ganddo ac un o'i ddywediadau oedd y byddai'n "estyn bonclust ichi yn y fyned" os na fyddai gwelliant yn yr ymddygiad. Pe byddai'n cyflawni ei fygythiad byddai'n o ddrwg ar y bygythiedig gan fod G.E. Thomas yn 'gawr o ddyn – yn dal ac yn gryf, a llygaid bywiog, treiddgar ganddo. Yn wir, edrychai fel un o batriarchiaid yr Hen Destament'. Ond yr oedd yn batriarch â'i wallt yn tueddu i sefyll i fyny, fel gwallt ei Nic efallai.

Yr oedd yn ddisgyblwr llym, ni oddefai unrhyw nonsens, er nad oedd dim byd yn greulon ynddo o gwbl – yn wir, i'r gwrthwyneb. Yr oedd yn ŵr unplyg iawn a chas ganddo oedd unrhyw beth ystrywgar neu lwgr. Yr oedd yn Eglwyswr selog, yn nhraddodiad yr hen 'eglwyswr llengar' a oedd wedi eu trwytho yn hen lenyddiaeth y Cymry; yn wir, bu'n Warden yr eglwys yn Nhreffynnon.

Fel Warden, fel ym mhopeth arall, yr oedd yn brydlon a rheolaidd. Pwysleisia pawb ei foneddigeiddrwydd a'i urddas. Ar ddiwrnod yr arholiad Cymraeg, Lefel 'A', byddai'n gwisgo ei siwt orau.

* * *

YR OEDD yn adroddwr stori tan gamp, a châi ei ddisgyblion wybod am Arthur a Myrddin a chlywed straeon o lên Cymru yn ei ddosbarthiadau. Byddai hefyd yn darllen straeon Nic yn y dosbarth. Teimlai rhai hi'n fraint arbennig cael y stori o lyfr 'a'r awdur yn fyw yno ac yn ein dysgu!'

Yn yr ardal yr oedd, wrth reswm, nifer o ddisgyblion ail iaith. Wrth orchymyn i'r rhain estyn eu llyfrau y clywyd Mr Thomas yn llefaru, yn gwbwl ddiniwed, y geiriau cofiadwy, "Take your Nics out". (Stori'r parchus Olygydd ydi hon: felly y mae ei dilysrwydd yn warantedig.)

Yn ogystal ag ysgrifennu hanesion Nic fe baratôdd nifer o sgriptiau radio, yn enwedig ar gyfer yr hen raglen 'Awr y Plant'. Paratôdd nifer o'r rhain ar gais Mr Elwyn Thomas. A oes rhai o'r rhain yn dal ar gael mewn cyfrin leoedd yng Nghanolfan y B.B.C. yn Llandaf, os gwn i?

Dengys y dyfyniad o *Nic* a geir ar ddechrau'r llith hwn mor gadarn lenyddol oedd Cymraeg G.E. Thomas. Rhoddai bwyslais mawr ar burdeb iaith, a chas oedd ganddo unrhyw osgo at iaith sathredig. Yn ei Ragair i *Nic*, ar ôl dweud mai ei fwriad wrth ysgrifennu'r llyfr oedd difyrru'r plant, dywed hyn:

*Cedwais, o fwriad, rhag defnyddio ffurfiau sathredig tafodiaith — yn bennaf er mwyn y Saeson bach yn ein hysgolion sy'n ymdrechu mor galed i ddysgu'r iaith.*

Byddai'n rhyfedd gan addysgwyr heddiw ystyried y fath eiriau! Ond efallai nad y dull yw'r peth pwysicaf wrth ddysgu iaith ond y person sydd wrth y gwaith a'r defnydd y mae'n ei greu. Creodd Gwilym Edward Thomas ddefnydd cyfareddol.


## *Hen Brintiau, Mapiau, Siartrau Môr*

# Olwen Caradoc Evans

Bodfor, The Esplanade, Penmaenmawr, Gwynedd LL34 6LY. Ffôn: (0492) 623955

Erbyn Gwyl Ddewi bydd ar gael gatalog o'r holl ddewis o Siartrau Môr, Mapiau, Printiau o bob sir yng Nghymru ac o apêl Gymreig arbennig – y cyfan â gwaith llaw crefftus ar y lliwio. Fe'i danfonir trwy'r post, dim ond talu'r cludiad o 19c (fe wna stamp y tro).

Yn y cyfamser medrwch sicrhau mewn lliw eich dewis o gannoedd o'r eitemau yma – a'r rheini'n rhai gwreiddiol prin, ac nid copïau. Ac wele enghreifftiau o'r mapiau y medrwch sicrhau **copïau** lliw ohonynt (nifer cyfyngedig).

| | |
|---|---|
| **America** (Gogledd a De) ar sail "Globe" Gerhard Mercator gan ei wyr Michael Mercator a'i ewythr Rumold Mercator. Rhwng 1595 a 1630. Maint 22¾" x 19½" | 15.00 |
| **America** gan Jacobum Meursium (1620-1680). Gogledd a De. 22½" x 19⅜" | 18.00 |
| **Map o Ogledd America.** Caroli Allard. Lluniau o fywyd ac arferion Indiaid ac Americanwyr. c 1697-1705. 21½ "x 19¾" | 12.00 |
| **Map o Diroedd Gogledd America** a hawlid gan Ffrainc, gyda'r tiroedd ym meddiant Lloegr a Sbaen. Herman Moll, Llundain 1720. Lliwgar, 27⅜" x 17¾" | 20.00 |
| **Carte du Mexique et de la Floride.** Guillaume De L'Isle, c. 1730-1757. Y cyntaf i fanylu ar Gulfor Mecsico a dengys drywydd "galleons" cynnar Sbaen. 23⅝" x 19½" | 15.00 |
| **An accurate Map of the West Indies.** Emmanuel Bowen. c.1770. 20½" x 17½" | 15.00 |
| **Partie du la mer du Nord.** Robert de Vaugandy's Gilles. 1750. Cywirder arbennig ac addurno crefftus mewn du a gwyn (sylwer) | 20.00 |
| **Middle British Colonies.** Un o fapiau enwog y Cymro, Lewis Evans, y sefydlwyd mapiau diweddarach o'r rhan yma o America arno. Gwel. Y Casglwr, Mawrth 1988. Cyhoeddwyd 1755. 27½" x 19¾" | 25.00 |
| **Map o Forgannwg.** Thomas Kitchen. Yn dangos cestyll, rheithordai, ysgolion etc. 21" x 14½" | 20.00 |
| **Map o Sir Gaerfyrddin.** Thomas Kitchen. 21" x 15" | 20.00 |
| **Illustrated Tourist Map of Wales.** W. Banks. c. 1850. Deunaw engrafiad bychan o leoedd yn Eryri a Gwynedd Map plygedig. Prin. 26⅝" x 28⅞" | 30.00 |
| **Facsimile o fap Humphrey Lhuyd**,1611. | 20.00 |
| **Dame Venedotia neu Modryb Gwen.** Gogledd Cymru fel hen wraig. Hugh Hughes . c.1840. 10⅝" x 15⅞" | 10.00 |
| **John Speed.** Copïau o fapiau holl siroedd Lloegr etc. | 25.00 |
| **Siart o draethau Cymru.** Arolwg enwog Lewis Morris o 1737-44. 29⅛" x 21¼". Prin | 35.00 |

Llu o siartiau diddorol eraill, gan gynnwys 26 o gopïau o blatiau Lewis Morris yn ei arolwg 1748 o borthladdoedd, bariau, baeau, etc. Cymru – posibl cyfarfod â galw bychan, ond ymofynner am y rhain.